

Taith gerdded Dyffryn Ceiriog – gwybodaeth gyffredinol

Cam 1

Mi brofodd ardal Y Waun sawl tro ar fyd dros y canrifoedd. Mae'r Cymry, y Saeson, y Rhufeiniaid ac eraill wedi gadael eu hol ar fywyd yma.

Mae'n debyg mai adeilad bach pren digon di-nod oedd Eglwys Y Forwyn Fair yn wreiddiol, ond codwyd adeilad cerrig ag un corff a thŵr gan y Normaniaid yn y ddeuddegfed ganrif. Ychwanegwyd ail gorff tair canrif yn ddiweddarach, sy'n cynnwys cofadeiliau i deulu Trefor (Neuadd Bryncunallt) a theulu Middleton (Castell Y Waun) ynghyd â ffenestri lliw bendigedig.

Yn 1282, blwyddyn marwolaeth Llywelyn Ein Llyw Olaf yng Nghilmeri, rhoddwyd y tir o amgylch Y Waun i Roger Mortimer. Gyda chaniatáu'r freinlen yn 1324 a chodi'r castell, cadarnhawyd gafael y Saeson ar y *Chirkland*, cadarnle i'r Saeson er ei fod yng Nghymru.

Mae Cam 1b yn mynd heibio'r castell a'i giatiau mawreddog, a adeiladwyd gan y brodyr Davies yn 1719.

Bu'r ardal yn groesfan bwysig dros Afon Ceiriog erioed. Pont hynaf y dyffryn yw'r Bont Faen, a oedd ar un adeg yn cludo'r unig ffordd o faint rhwng Caer a Chaerdydd dros y dyfroedd. Mae ffordd Thomas Telford, o Gaergybi i Lundain, hefyd yn croesi'r afon yn Y Waun.

Daeth cloddio ar raddfa fechan i'r ardal yn sgil datblygiadau diwydiant a thrafnidiaeth y deunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd angen rhwydwaith trafndiaeth ar lofeydd Chirk Bank, Y Parc Du a Bryncunallt i gysylltu â phorfeydd bras Lloegr. Yr ateb oedd campwaith Telford a Jessop, y gamlas a'r draphont ddŵr yn 1801. Mae'r creadigaethau hynod yma'n rhan ganolog o safle treftadaeth y byd Camlas Llangollen, ac maen nhw'n werth eu gweld er gwaethaf adeiladu traphont reilffordd Robertson yn 1852 sydd hyd yn oed yn fwy trawiadol.

Mae yna Bwynt Gwybodaeth i Ymwelwyr yn swyddfa bost Y Waun.

Mae yna dri dewis i ddechrau'r daith.

Cam 2 – Croesi'r ffin

Mae'n drist dweud mai tywallt gwaed yw un o'r prif elfennau a luniodd cymeriad Dyffryn Ceiriog dros y canrifoedd. Ymhlith nodweddion amlycaf y dyffryn mae gwerysll enfawr y Rhufeiniaid ym Mharc Rhyn, Clawdd Offa ym Mronygarth, maes y frwydr yn erbyn y Saeson yn Crogan, a Chastell Y Waun.

Mae gwrthglawdd enfawr Clawdd Offa, sy'n 168 milltir o hyd, yn un o nodweddion amlycaf y Gororau ac yn un o'r arwyddion amlycaf o arwahanrwydd ein cenedl. Mewn mannau mae'n wyth metr o uchder, gyda ffos yn rhwystr ychwanegol i bwy bynnag a feiddia ymosod. Pan gafodd ei godi ar orchymyn Offa, Brenin Mersia, yn yr wythfed ganrif hon oedd y fenter adeiladu fwyaf yn hanes Ewrop. Y bwriad oedd cadw'r Cymry allan, ac mae rhannau o'r clawdd yn dynodi'r ffin hyd y dydd heddiw. Mae'n rhedeg ar draws Dyffryn Ceiriog.

Bu brwydr enfawr ar faes sydd islaw llwybr ein taith yn 1165. Daeth Harri'r Ail â byddin enfawr o Loegr, gyda'r bwriad o ddod â'r "ysgarmesau ar y gororau" i ben. Er gwaethaf anfantais y niferoedd, y Cymry aeth â'r dydd, gan elwa ar eu dewrder, eu gwybodaeth am y tirlun a'r tywydd ofnadwy. Enw arwyddocaol y lle yw Adwy'r Beddau.

Nodwedd amlycaf y daith hon yw'r golygfeydd bendigedig o Gastell Y Waun. Codwyd y castell tua diwedd y drydedd ganrif ar ddeg gan Edward y Cyntaf, fel rhan o Gylch Carreg y gogledd i reoli'r Cymry. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n gyfrifol am y castell a'r gerddi trawiadol.

O ran ei ddyluniad mae'r castell yn debyg i Gastell Biwmares. Mae'n bosib bod ganddo borthdy dau-dŵr yn wreiddiol, gan adlewyrchu'r tyrau drwm sydd i'w gweld o hyd. Byddai'r porthdy wedi wynebu Cymru, a herio'r Cymry. Yn ôl rhai haneswyr, cafodd ei godi ar seiliau castell Cymreig, ond does dim tystiolaeth o hynny wedi dod i'r amlwg hyd yn hyn.

Cafodd y castell a'r tir o'i amgylch nifer o berchnogion cyn i Syr Thomas Myddleton ei brynu am bum mil o bunnoedd yn 1595. Gwnaed gwaith ar y castell dros nifer o flynyddoedd, ac mi oroesodd Rhyfeloedd Cartref 1642-1648 heb lawer o niwed. Mae'r tir o'i amgylch yn parhau yn nwylo'r teulu.

Mae'n bosib iawn y gwelwch chi grëyr glas neu fochyn daear wrth i chi gerdded drwy Coed y Pentre gerllaw'r pyllau pysgod a'r fridfa brithyllod.

Cam 3 - Cam 3 – Lonydd llonydd a phorfeydd gwelltog

Islaw ein taith, ar ein hochr ni o Glawdd Offa, mae tŷ trawiadol Penisa'r Glyn, a adeiladwyd ar ystâd fach gysylltiedig â'r castell. Rhwng 1939 ac 1969 roedd tair menyw'n ei redeg fel gwesty llwyddiannus. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd daeth athrawon o Fanceinion i dreulio'r penwythnos yn bell o sŵn y bomio er mwyn cael ychydig o gwsg. Wrth droi o gwmpas yr allt mi fyddwch hefyd yn medru gweld adeiladau Ffarm Penisa'r Glyn. Daeth y diwydiannau chwarelu a mwyngloddio i'r ardal yn sgil darganfyddiad calchfaen, ac mae llawer o odyonau yn britho'r ardal hyd heddiw.

Mae'n werth ymweld ag ystafell aros y dramffordd yn ystod eich amser ym Mhontfadog, er mwyn dysgu mwy am hanes y dramffordd hyd ei chau yn 1935.

Cam 4 – Coetir a phorfa Glyn Ceiriog

Pentref Glyn Ceiriog yw'r mwyaf yn y dyffryn. Y chwareli llechi uwch ei ben oedd ei brif nodwedd am flynyddoedd lawer. Roedd chwarel y Cambrian a chwarel Wynne yn cyflogi llawer iawn o'r pentrefwyr, ac yn ganolbwynt i dalp go dda o'r bywyd cymdeithasol. Roedd yna gymdeithasau ar gyfer trafod a darllen a garddio, ynghyd â chôr a sawl seindorf oedd yn hoelion wyth eisteddfodau ymhell ac agos. Cymraeg oedd iaith y dyffryn o'i flaenau hyd ei borth. Yr Arglwydd oedd uwchlaw'r cyfan, fel y mae'r nifer fawr o gapeli ac eglwysi'n ei ddangos yn glir.

Penllanw'r ymdrechion diwylliannol a chymdeithasol oedd agor Neuadd Goffa Ceiriog ar y Ffordd Uchaf yn 1911. Cafodd ei godi er cof am feirdd enwog y dyffryn, yn enwedig Ceiriog, Eos Ceiriog a Chynddelw. Anrhydeddwyd y tri yn eu tro gan Eisteddfod Powys, a ddaeth i Ddyffryn Ceiriog ddiwethaf yn 1999. Gerllaw'r maes chwarae mae Cylch yr Orsedd.

Mae'r adeilad arbennig yma'n parhau i wasanaethu ei gymuned hyd y dydd heddiw. O fewn ei furiau cadarn mae llyfrgell, parlwr menywod, sefydliad cymdeithasol a'r amgueddfa leol, ac mae yna groeso mawr i ymwelwyr.

Bu diwydiannau eraill yn gysylltiedig â'r pentref. Roedd yna ddwy felin yn glanhau gwlan i'w ddefnyddio i gynhyrchu carthenni a gwlanenni. Defnyddiwyd cafn y felin uchaf fel bridfa brithyll am gyfnod, Heddiw mae'r felin isaf yn fusnes o natur wahanol; mae Coed Ceiriog yn fenter gydweithredol sy'n defnyddio pren lleol a rheolaeth gynaliadwy o'r coetir i gynhyrchu deunydd pren o'r safon uchaf.

Mewn safle wirioneddol fendigedig ar lethr i'r gogledd o'r pentref presennol, yng nghalon safle gwreiddiol y plwyf, mae Eglwys Santes Ffraid sy'n cynnig golygfeydd aruthrol o'r pentref a'r dyffryn cyfan.

Mae taflen wybodaeth "O Glyn i Bandy" ar gael yn y siopau lleol.

Cam 5 – Craig y Pandy

Yn dŵr uwchlaw'r dyffryn mae Craig y Pandy, ffurfiant folcanig sydd dan ystyriaeth i'w nodi'n Safle Daearegol Pwysig Rhanbarthol. Mae yna lu o ddyddodion mwynol yn agos at ei gilydd yma. Cafodd llawer ohonynt eu chwarelu, yn eu plith llechi, silica, gwenithfaen a charreg tsieina, sy'n cael ei defnyddio i roi golwg anrhyloyw i borsten.

Mae'n bosib osgoi'r allt serth a dilyn y ffordd heibio ceudyllau llawn dŵr y tu ôl i glwyd haearn. Roedd y rhain yn weithfeydd gwenithfaen a silica ers talwm.

Os ydych chi'n penderfynu herio'r allt mi fyddwch yn cyrraedd uchafbwynt y daith ar 350 metr (1165 troedfedd), gan weld i bellafodd Y Berwyn tua'r gorllewin ac Y Foel i'r

gogledd. Tua'r de, mae'r tir yn syrthio tuag at ddyffryn cul Afon Y Teirw sy'n ymuno â dyfroedd Afon Ceiriog ym Mhandy.

Daeth George Borrow yma, gan ddisgrifio naws wyllt y lle yn *Wild Wales* – '*the valley was wild and solitary to an extraordinary degree, the brook or torrent running in the middle of it, covered with alder tree*'. Er nad yw mor ddiarffordd heddiw, mae'n parhau'n wyllt. Mae adar ysglyfaethus fel y bwncath, y cudyll coch, y cudyll bach, yr hebog a'r barcud yn gyffredin. Yn y gwanwyn a'r haf mi glywch y gylfinir yn canu wrth nythu ar y tir uchel. Yn y coetir mae'r gwybedog, sgrech y coed, melyn yr eithin a'r dryw. Ger yr afonydd mi welwch y siglen felen, y siglen fraith a fronfraith fach y dŵr ger yr afonydd. Ac os ydych yn dawel, yn gyfrwys ac yn ffodus mi welwch ysgyfarnog, mochyn daear, llwynog, gwenci, carlwm, dyfrgi a hyd yn oed y ffwlbarc prin.

Cam 6 – Y chwarel a'r dramffordd

Cafodd Pandy ei enw am reswm syml - adeiladwyd pandy yno. Erbyn heddiw The Woolpack yw'r enw arno. Y gwaith oedd defnyddio pridd y pannwr i greu gwlanenni o ddeunydd gwlan lleol.

Chwarel yr Hendre oedd cyflogwr mwyaf y dyffryn am flynyddoedd lawer. Dechreuwyd gweithio yno yn 1873. Oddi yno daeth dolerit, sy'n graig igneaidd debyg i wenithfaen a ddefnyddir ar gyfer ffyrdd ac fel wyneb ar adeiladau mawreddog. Y chwarel oedd terfyn taith y dramffordd, ac mae llwybr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dilyn rhan o'r llwybr. Mi welwch ychydig o'r trawstiau sylfaen ac adfeilion hen adeiladau'r chwarel wrth i chi fynd ar eich taith.

Bu'r bardd Huw Morus (Eos Ceiriog; 1622-1709) yn byw gyda theulu ei frawd ar ffarm Pontymeibion yn Llansilin o'r flwyddyn 1647 ymlaen. Gan ei fod yn ddi-briod, cafodd gyfle i deithio a chlera yn nhai boneddigion y gogledd. Roedd yn feistr ar y mesurau caeth a'r mesurau rhydd, ac yn frenhinwr ac yn eglwyswr i'r carn. Daeth Cromwell a'r Piwritaniaid o dan lach ei gerddi – cerddi y bu'n ddigon call i'w cyhoeddi ar ôl adferiad y frenhiniaeth...

Cam 7 – Ar drywydd ffesantod

Am ganrifoedd lawer bu Llanarmon Dyffryn Ceiriog yn lloches i borthmyn ar eu taith i Loegr ac yn ôl. Mae dwy o goed ywen Eglwys Garmon Sant dros fil o flynyddoedd oed. Bu hon yn fangre grefyddol ers y bumed ganrif. Credir bod y twmpath ger y glwyd yn dwmpath pregethu a ddefnyddiwyd cyn i unrhyw adeilad gael ei godi gerllaw.

Ganed y bardd adnabyddus John Ceiriog Hughes (Ceiriog; 1832 – 1887) ar ffarm Pen-y-Bryn, Llanarmon. Daeth awdur cerddi enwocaf y ganrif yn adnabyddus wrth i'r Cymry geisio adfer eu henw da yn sgil Brad y Llyfrau Gleision yn 1847. Ei allu i leisio teimladau dwys tuag

at fyd natur, cariad a gwladgarwch sy'n golygu bod cerddi fel 'Nant y Mynydd', 'Cân yr Aradr Goch' ac 'Alun Mabon' yn boblogaidd hyd heddiw.

Yn 1923, cyflwynodd Corfforaeth Warrington gynlluniau ar gyfer dwy gronfa ddŵr i'r Senedd yn Llundain. Eu bwriad oedd cipio tua 13,000 erw o dir a fyddai'n cynnwys pentrefi Tregeiriog, Llanarmon Dyffryn Ceiriog a Pentre, gan ddinistrio cymeriad y dyffryn am byth. Daeth cefnogaeth i'r ymgyrch i'w ddiogelu o ymhell ac agos. Lleisiodd neb llai na David Lloyd George ei anfodlonrwydd ar lawr Tŷ'r Cyffredin, gan ddisgrifio Dyffryn Ceiriog fel "darn bach o'r Nefoedd ar wyneb ein daear". Holodd "pam y byddai unrhyw un yn dymuno boddi dyffryn mor hyfryd?", a llwyddwyd i foddii cynlluniau Corfforaeth Warrington.